

ff/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

Nodyn cyfarfod archwiliadol

Cynhaliwyd ddydd Mawrth, 16 Mehefin 2026, am 10am yn Neuadd y Sir, Hwlfordd

1. Cyflwyniadau

Agorwyd y cyfarfod archwiliadol am 10am gan yr Arolygydd, Ian Stevens, sydd wedi cael ei benodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gynnal archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) diwygiedig Sir Benfro.

Cyflwynodd yr Arolygydd Deborah Williamson, y Swyddog Rhaglen ar gyfer yr archwiliad. Roedd cydweithiwr o Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru hefyd yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod.

Cyflwynodd y cyfranogwyr gwadd eu hunain:

Harriet Lavender Cyngor Sir Penfro

Martina Dunne

Tom Nettleship

Bob Smith

Islwyn Wilson

Mark Newey Llywodraeth Cymru

Mary Lewis Cyfoeth Naturiol Cymru

Ruth Jenkins

(Ymunodd cyfranogwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru â'r cyfarfod yn rhithwir)

Dywedwyd bod cyfleusterau cyfieithu ar gael pe bai unrhyw gyfranogwr yn dymuno siarad yn Gymraeg.

Roedd nifer o arsylwyr yn gwylio'r cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Fodd bynnag, eglurodd yr Arolygydd mai dim ond y rhai a wahoddwyd i gymryd rhan allai gyfrannu at y cyfarfod gan ei fod yn drafodaeth â ffocws ar faterion penodol.

Pwrpas y cyfarfod archwiliol oedd trafod effeithiau posibl yr CDLI ar ansawdd dŵr, gan gynnwys yr effeithiau ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd Cleddau ac ACA Forol Sir Benfro. Rhoddodd yr Arolygydd drosolwg o'r mater ansawdd dŵr lle mae'n berthnasol i Sir Benfro, gan grynhoi'r pryderon a godwyd mewn gohebiaeth flaenorol (llythyrau dyddiedig 2 Rhagfyr 2025 a 8 Mai 2026). Ar wahân i'r materion hyn, ni fyddai cynnwys yr CDLI

a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y camau ymgynghori blaenorol yn cael eu trafod. Ailbwysleisiodd yr Arolygydd, cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r cynllun, fod angen trafod y materion yn y cyfarfod hwn.

Derbyniwyd Datganiad Sefyllfa ar Faethynnau Llywodraeth Cymru i lyfrgell yr archwiliad (ED20). Atgoffodd yr Arolygydd y cyfranogwyr, er y bydd cynnwys y datganiad yn cael ei ystyried, mai'r arolygwyr penodedig eu hunain fyddai'n gwneud y penderfyniadau ynghylch sut mae'r archwiliad yn mynd rhagddo.

2. Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyflwyniad ar y gwaith parhaus o baratoi Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn wedi'i osod yng nghyd-destun dull integredig, fel y nodir mewn polisi cenedlaethol. Mae'r dull integredig yn ceisio alinio cyflawniad parhaus mesurau adfer (o dan Erthyglau 6(1) a 6(2) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd) mewn ACAau nad ydynt ar hyn o bryd yn cyflawni eu hamcanion cadwraeth ar gyfer maethynnau â mesurau lliniaru a chydbwyso posibl (o dan Erthyglau 6(3) a 6(4), yn y drefn honno).

Bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn berthnasol i ran afonol a di-lanw ACA Afonydd Cleddau, ac elfen lanw ACA Forol Sir Benfro yn Sir Benfro. Bydd hyn yn cynnwys yr holl lednentydd sydd â chysylltiad hydrolegol. Ni fydd afonydd nad ydynt wedi'u cysylltu'n hydrolegol â dalgylch afonydd Cleddau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch hwn. Bydd yn gynllun adfer lleol. Y nod yw sicrhau digon o ostyngiadau mewn llwythi nitrogen a ffosfforws i'r dalgylchoedd er mwyn i'r ACAau wella.

Bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn nodi mesurau ychwanegol i sicrhau statws gwell yr ACAau. Ni ddylai'r mesurau hynny o dan Erthyglau 6(3) a 6(4) beryglu gwaith i adfer yr ACAau o dan Erthyglau 6(1) a 6(2) sy'n mynd rhagddo ac nad oes rhaid eu cyflawni cyn bod dull integredig ar waith.

Mae angen i bob mesur a nodwyd fod yn ddiogel, a byddant yn cael eu hamseru, eu costio, eu meintoli, eu dyrannu a'u cymeradwyo. Bydd cerrig milltir gweithredu clir yn cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, mae tri cham i waith y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch. Yng Ngham 1, bydd CNC yn cyfrifo capasiti lleihau maethynnau'r dalgylch ac yn coladu camau gweithredu CNC, megis rheoli llygredd amaethyddol, adolygiadau trwyddedau gweithfeydd trin dŵr gwastraff, a gweithgareddau dalgylch ehangach. Allbwn Cam 1 fydd cynllun gweithredu interim lefel uchel.

Bydd Cam 2 yn ychwanegu camau gweithredu diogel gan y cyngor a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys gwaith partneriaeth. Rhagwelir y bydd gwaith Cam 2 yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â Cham 1, ar yr un pryd.

Bydd Cam 3 yn darparu dadansoddiad mwy manwl, gan nodi unrhyw fylchau a chamau gweithredu pellach, i'w paratoi o fewn 12 mis (erbyn mis Ebrill 2027). Gallai pedwerydd cam posibl ddilyn gyda mwy o gamau gweithredu, yn dibynnu ar gynnydd gyda chyfnodau cynharach.

Er bod y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn ei gamau cynnar, mae CNC wedi ymrwymo i gyflawni'r gwaith hwn ac yn hyderus y gellir datblygu'r dull integredig ochr yn ochr â'r CDLL. Ychwanegodd CNC eu bod yn fodlon â dull CDLL Sir Benfro o gymhwyso niwtraliaeth maethynnau fel mesur wrth gefn ochr yn ochr â dull cafeat polisi yn y cynllun.

3. Mater 1: O ystyried y graddau y mae dyraniadau'r cynllun yn cael eu heffeithio, a yw'n ymarferol i'r cyngor gynhyrchu cynllun gweithredu lliniaru dangosol yn ôl-weithredol?

Esboniodd CNC y disgwylir i gamau 1 a 2 o'r Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch gael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2026. Bydd yn cynnwys cynllun gweithredu yn nodi camau gweithredu, partïon cyfrifol ac amserlenni cyflawni. Disgwylir i Gam 3 gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2027.

Ailbwysleisiodd y cyngor eu hymrwymiad i weithio gydag CNC i ddod â chamau 1 a 2 ymlaen erbyn mis Hydref. Bydd gwaith y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch hefyd yn ystyried a ellir cymhwyso dull trothwy yn Sir Benfro.

Bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn nodi dull integredig hirdymor gyda cherrig milltir a mesurau lliniaru diogel. Cadarnhaodd y cyngor y bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn cwmpasu cyfnod cynllun yr CDLL a'i dybiaethau twf.

Esboniodd CNC y bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn ymgorffori pob cam hysbys o ran maethynnau sy'n ddiogel ac yn cynnwys cerrig milltir cyflawni. Bydd mesurau lliniaru yn cael eu halinio â cherrig milltir yr CDLL. Byddai'r gwaith hwn yn digwydd beth bynnag, ond mae angen ei integreiddio â'r CDLL nawr.

Bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn bwrw ymlaen â gwybodaeth o'r Cynllun Rheoli Maethynnau, gan gynnwys costau ac amserlenni.

Os bydd oedi wrth gynhyrchu'r Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch, eglurodd CNC na ddylai atal mesurau rhag cael eu cyflwyno. Gall cynigion datblygu ildio i'r dull cafeat polisi, yn seiliedig ar egwyddorion niwtraliaeth maethynnau. Ychwanegodd y cyngor fod ceiswyr yn gynyddol ymwybodol o ofynion niwtraliaeth maethynnau wrth baratoi ceisiadau.

4. Mater 2: A yw dyraniadau o fewn dalgylchoedd ACA sy'n sensitif i faethynnau – ac felly'r cynllun cyfan – yn gyflawnadwy?

Mae'r cyngor o'r farn bod niwtraliaeth maethynnau yn fesur wrth gefn hyfyw, pe bai ei angen. Crybwyllwyd dwy elfen: cynllun credyd maethynnau sy'n cael ei ystyried yn Sir Benfro, gydag adroddiad i'r cabinet yn amlinellu'r camau nesaf i'w gyflwyno'n fuan, a threfniadau pwrpasol gan geiswyr, gan ystyried y Llawlyfr Lliniaru Nitrogen Anorganig Toddedig Morol ac Aberol i Ddatblygwyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r cyngor yn mynnu bod y ddau ddull yn osgoi ailystyried materion hyfywedd.

Esboniodd y cyngor fod cyfraniadau ariannol yn cael eu hystyried o dan y dull integredig. Mae lwfans eisoes wedi'i gynnwys yn nhystiolaeth hyfywedd yr CDLL (£1,500 fesul annedd ar gyfer

Systemau Draenio Cynaliadwy). Gallai mesurau gynnwys cyflogi swyddogion gorfodi, opsiwn a awgrymwyd yng nghanllawiau diweddar Llywodraeth Cymru a baratowyd gan DTA Ecology (9 Mawrth 2026), ac mae'r ddogfen honno hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau yn Lloegr o liniaru pwysau hamdden.

Dywedodd CNC y bydd Cam 1 yn cynnwys mesurau wedi'u sicrhau a'u costio, tra bydd Cam 3 yn nodi cyfraniadau o ystod ehangach o fesurau lliniaru.

Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen ystyried cyfyngiadau ar gyfuno cyfraniadau ariannol ymhellach gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys CNC, er mwyn deall sut y gellid cydblethu gwahanol ddulliau. Nid yw mesurau adfer o reidrwydd yn cael eu cyflawni drwy ganiatâd cynllunio gan eu bod yn barhaus, a thrwy hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd wrth gyfuno adnoddau.

Gallai gwaith parhaus gan y cyngor ar astudiaeth o ffermydd y sir nodi mesurau lliniaru pellach, ynghyd â pharatoi cynllun credyd maethynnau. Cyhoeddir rhagor o fanylion yn yr hydref, drwy adroddiad cabinet yn amlinellu argymhellion i'w gweithredu.

Mae'r cyngor yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddatganiad sefyllfa Llywodraeth Cymru. Gall gwaith ar y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch, ynghyd â diweddariadau i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, lywio'r gwaith o baratoi canllawiau atodol i ddarparu rhagor o fanylion am y dull integredig. Mae hwn yn ddull priodol o gasglu rhagor o fanylion a allai fod yn anhysbys adeg yr archwiliad, fel yr amlinellir yn y datganiad sefyllfa. Mae hefyd yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n galluogi dilyn gwahanol ddulliau lliniaru. Mae'r cyngor yn ychwanegu bod y dull cafeat polisi, fel y'i nodir o fewn polisi newydd arfaethedig SP12A, yn egluro beth ddylai ddigwydd pan nad yw gwelliannau a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ailadrodd y dylid rhoi pwyslais sylweddol ar ei datganiad sefyllfa. Cydnabyddir bod llawer o waith hyfywedd wedi'i wneud. Nid yw pob mesur lliniaru yn hysbys eto. Mae prawf cadernid 3 – a fydd y cynllun yn cyflawni? – yn ymwneud â dangos yn fras ei fod yn cael ei gyflawni yng nghyfnod llunio'r cynllun.

Gyda dim ond ychydig dros saith mlynedd o gyfnod y cynllun ar ôl, mae'r cyngor yn tynnu sylw, trwy gysylltu ag ymgeiswyr a datblygwyr, fod safleoedd yn dal i ddod ymlaen cyn mabwysiadu'r CDLL, a bod y gwaith lleol parhaus gyda symudiad tuag at ddull integredig yn rhoi sicrwydd ynghylch cyflawni.

5. Mater 3: A yw'r mesurau lliniaru yn ddigon 'diogel' i ddibynnu arnynt yn yr asesiad priodol?

Yn absenoldeb Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch, mae'r cyngor yn cytuno na ellir ystyried mesurau lliniaru yn ddiogel o ran Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd dibyniaeth ar niwtraliaeth maethynnau yn y cyfnod interim. Ailadroddodd CNC y bydd y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch yn nodi'r manylion angenrheidiol a'i fod yn ddull peilot yn Sir Benfro, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i ddalgylchoedd eraill yn y dyfodol.

Bydd Polisi SP12A yn nodi dull cyffredinol ar gyfer pob cais cynllunio yr effeithir arno gan faethynnau. Y prawf polisi eithaf, a'r ateb wrth gefn, yw na chaniateir datblygiad lle mae effaith andwyol ar gyfanrwydd safle. Bydd y cyngor yn paratoi canllawiau cynllunio atodol gyda manylion pellach ac yn cyflwyno rhestr gynnwys fras i'r archwiliad, yn dilyn y cyfarfod hwn.

O ran y camau i randdirymu Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, mae'r cyngor yn mynnu, o ystyried maint a chwmpas daearyddol y mater, nad oes unrhyw atebion amgen ar gael o ran opsiynau strategol eraill. Cytunodd Llywodraeth Cymru, ac mae'n debyg y byddai unrhyw opsiwn amgen yn anghynaliadwy.

Ailadroddodd y cyngor fod y cynllun, gan gynnwys ei waith Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar lunio cynlluniau ac felly y gellir rhoi pwyslais sylweddol ar ddatganiad sefyllfa Llywodraeth Cymru.

6. Materion eraill

Mae'r cyngor yn awyddus i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar drothwyon ond mae'n dibynnu ar waith y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch i fesur dull sy'n seiliedig ar drothwyon. Bydd gwaith pellach yn sefydlu a ellir cymhwyso dull o'r fath, ochr yn ochr â diwygiadau i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (mae briff yn cael ei baratoi i ymgynghorwyr ddiweddarau'r atodiad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ddiweddarach eleni).

Er bod y cyngor wedi cyfeirio at newidiadau arfaethedig i Bolisi SP12A, a gyflwynwyd yn ei ymateb diweddar (ED15b), cydnabyddir y gallai fod angen gwelliannau ychwanegol o ystyried gwaith parhaus y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch.

7. Y camau nesaf

Cytunwyd ar y pwyntiau gweithredu canlynol yn ystod y cyfarfod:

1. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflwyno cyflwyniad y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch i lyfrgell yr archwiliad – wedi'i gwblhau (ED21).
2. CNC i ddarparu crynodeb ysgrifenedig o waith y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch – i gynnwys gwybodaeth am waith i fesur sefyllfa o ran trothwyon – erbyn 29 Mehefin 2026.
3. Y cyngor i ddarparu ymateb i C3 o dan Fater 2 – gan egluro sut maen nhw'n bwriadu sicrhau cyfraniadau ariannol tuag at adfer a gwella'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, o ystyried y cyfyngiadau cyfuno sy'n bodoli. Mae hyn yn cynnwys ymateb i'r rhan gyntaf a'r ail – a oes digon o sicrwydd y gellid sicrhau'r cyfraniadau hynny ac, os na, a ellid newid y rheini ac a oes amserlen ar gyfer hyn? – erbyn 29 Mehefin 2026.
4. Y cyngor i ddarparu crynodeb o'r canllawiau cynllunio atodol arfaethedig a fydd yn cysylltu â gweithredu Polisi GN47 / SP12a ac yn darparu rhagor o fanylion amdano – i gynnwys crynodeb o'r cynnwys, y penodau/penawdau arfaethedig, a'r amserlen ar gyfer paratoi, ymgynghori a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol – erbyn 29 Mehefin 2026.

5. (Ychwanegwyd ar ôl y cyfarfod) Y cyngor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynigion masnachu maethynnau – pryd y mae'n bwriadu cyflwyno adroddiad i'r cabinet/pwyllgor, a chrynodeb o'r hyn y bydd hwn yn ei gynnwys, gan gynnwys unrhyw dargedau / cerrig milltir yn y dyfodol – erbyn 29 Mehefin 2026.

Nododd yr Arolygydd y byddai'n ysgrifennu at y cyngor gyda phenderfyniad ynghylch sut y dylai'r archwiliad fynd rhagddo ar ôl derbyn yr ymatebion i'r pwyntiau gweithredu. Daeth y cyfarfod i ben am 12.50pm.